Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cylchlythyr Tiwtoriaid

## Tymor yr Hydref 2022

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Gair gan Helen

## Croeso i'r cylchlythyr i diwtoriaid.

Dymuniadau gorau i chi i gyd ar ddechrau tymor newydd sbon fel hyn.  Bydd yn gyfnod prysur a hwyliog o gwrdd â dysgwyr newydd ac o groesawu eraill yn ôl i'r dosbarth, gyda rhai ohonoch o bosib yn dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers mis Mawrth 2020.

Braf yw gallu adrodd bod cynnydd yn nifer y cofrestriadau eleni. Cafwyd ymateb arbennig o dda i'r ymgyrch recriwtio pobl ifanc, hefyd, a 'dyn ni'n edrych ymlaen at eu croesawu i'n plith.  Diolch i chi am fod yn llysgenhadon gwych dros y sector ac am annog eich dysgwyr i ddal ati a'n helpu i ledaenu'r neges am ein cyrsiau.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i groesawu unrhyw diwtoriaid newydd.  Ces i'r pleser o fod yng nghwmni 13 o fyfyrwyr prifysgol am bythefnos ym mis Gorffennaf ar gwrs o'r enw Tiwtoriaid Yfory. Mae sawl un o'r criw wedi cael gwaith fel tiwtor, felly dymuniadau gorau iddyn nhw.  'Dyn ni'n edrych ymlaen at gychwyn ar y gwaith o hyrwyddo cynllun Tiwtoriaid Yfory 2023 cyn bo hir.

Bu'n braf teithio i wahanol rannau o Gymru yn ddiweddar a gweld cynifer ohonoch yn y sesiynau hyfforddi.  Mae rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant ar Academi isod, ond fel y gwyddoch, mae pob croeso i chi gysylltu â mi ar unrhyw adeg os hoffech sgwrs bellach.

Diolch yn fawr,

**Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**

# Canlyniadau Dweud eich Dweud

Dweud eich Dweud yw'r holiadur barn cenedlaethol sy'n ceisio darganfod sut mae'r dysgwyr yn teimlo am y ddarpariaeth. Cafwyd 2,600 o ymatebion yn ystod 2021-2022 ac fe ddywedodd 99% o'r ymatebwyr eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg, gyda 70% yn nodi eu bod yn mwynhau'n 'fawr iawn'. Dyma'r ffigwr uchaf erioed.



**Dyma rai o ganlyniadau eraill yr holiadur:**

- **98.9%** yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y tiwtor yn dysgu'r cwrs yn effeithiol
- **98.3%** yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y tiwtor yn rhoi cyngor i'w helpu i wella
- **97.5%** yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn derbyn digon o help a gofal oddi wrth y darparwr
- **92%** yn dweud bod yr adborth i'r gwaith cartref yn dda neu'n dda iawn
- **84%** yn bwriadu dysgu Cymraeg eto y flwyddyn nesaf



# Gwers flasu bêl-droed

Yn sgîl yr holl gyffro ynghylch [Cwpan y Byd], bydd y Ganolfan yn cynnal gwers flasu bêl-droed ar gyfer dechreuwyr newydd. Bydd y wers rithiol yn cael ei chynnal nos Iau, 10 Tachwedd am 7yh. Bydd y wers ei hun rhwng 7 a 7.45yh gyda phawb yn dod at ei gilydd mewn Zoom cenedlaethol am 7.50yh. Bydd angen cofrestru o flaen llaw, felly a wnewch chi annog eich dysgwyr i ddweud wrth eu ffrindiau am y cyfle yma.





# Cyflwyniad i Duolingo a SaySomethingInWelsh

’Dyn ni’n trefnu sesiynau sy’n cyflwyno gwybodaeth am Duolingo a SaySomethingInWelsh ar gyfer dysgwyr lefel Mynediad.  Bwriad y sesiynau fydd dangos i’r dysgwyr sut i ddefnyddio’r adnoddau er mwyn adeiladu hyder ac ymarfer eu Cymraeg rhwng gwersi.

Bydd y sesiynau rhithiol yn cael eu cynnal ar 8 Tachwedd a bydd angen cofrestru o flaen llaw.  Gellir cofrestru yma ar yr ochr Gymraeg ac yma ar yr ochr Saesneg a bydd angen i’r dysgwyr ddewis un o dair sesiwn sef 9.30yb, 2yp neu 7yh.

Mae croeso i chi rannu’r dolenni uchod gyda’ch dysgwyr lefel Mynediad er mwyn eu hannog i gofrestru.

## Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru

Bydd lleisiau dysgwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt i’w clywed ar Radio Cymru yn ystod yr Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg flynyddol sy’n cael ei chynnal ar yr orsaf rhwng 15-21 Hydref.  Bydd sgwrs Holi’r Cyflwynwyr yn cael ei chynnal ar 17 Hydref am 7yh yn ogystal â llwyth o eitemau a rhaglenni diddorol eraill gydol yr wythnos.  Bydd mwy o fanylion ar wefan BBC Cymru ac ar dysgucymraeg.cymru.



# Hyfforddiant + Academi

Sesiynau wyneb yn wyneb gyda Dr Emyr Davies i drafod arholiadau Dysgu Cymraeg yw'r sesiynau hyfforddiant nesaf sydd ar y gweill:

TACHWEDD 18

**Y Llwyfan, Caerfyrddin**
10yb-12yp

---

TACHWEDD 18

**Adeilad Elystan Morgan, Llanbadarn, Aberystwyth**
2.30-4.30yp

---

TACHWEDD 21

**CAMU, Wrecsam**
10yb-12yp

---

TACHWEDD 21

**Stryd y Deon, Bangor**
2.30-4.30yp

---

TACHWEDD 25

**Prifysgol Caerdydd**
2-4yp

Wedyn, yn y flwyddyn newydd, bydd Helen yn cynnal sesiynau rhithiol wythnosol ar ramadeg y Cwrs Canolradd. Cynhelir y sesiynau hyn bob dydd Mawrth rhwng 10 Ionawr ac 14 Chwefror rhwng 4.30-5.30yp.

Gellir cofrestru ar gyfer y cyrsiau hyn ar Academi.

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cylchlythyr Tiwtoriaid

**Chwefror 2023**



# Croeso gan Dona

Ar ddechrau tymor newydd, a blwyddyn newydd, mae'n dda iawn gen i eich croesawu i'r cylchlythyr yma yn rhinwedd fy rôl newydd innau fel Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.  Dw i'n edrych ymlaen yn fawr at adeiladu ar y gwaith da a wnaed ers sefydlu'r Ganolfan yn 2016, gan weithio gyda chi i ddatblygu ein cynlluniau i'r dyfodol.  Wrth i ni afael eto yn y gwaith yn dilyn seibiant dros gyfnod y Nadolig, hoffwn ddymuno'n dda iawn i chi gyd gyda'r dysgu, ac edrychaf ymlaen at eich gweld yn fuan.

Diolch yn fawr,

**Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**



# Diweddariad gan Helen

Helo, bawb, a chroeso'n ôl i dymor newydd.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i chi am sicrhau cefnogaeth arbennig o dda i'r bore coffi rhithiol gafodd ei gynnal ar Ddydd Santes Dwynwen.  Roedd yn braf croesawu Joe Healy i'n plith ac wrth gwrs edrych ymlaen at Eisteddfod Genedlaethol 2023 wrth lansio Cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn.
1 Mai yw'r dyddiad cau.

Hoffwn dynnu eich sylw at ddigwyddiad rhithiol arall sy wedi ei drefnu, sef sesiwn yng nghwmni Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 21 Mawrth.  Gobeithio y bydd modd i chi ein cynorthwyo i ddenu dysgwyr i'r sesiwn ac mae'r manylion cofrestru wedi'u nodi isod.

Cyn hynny, byddwn yn cynnal Gŵyl Ddarllen Amdani yn ystod 27 Chwefror – 3 Mawrth.  Bydd digwyddiadau rhithiol byw a sawl cyhoeddiad, yn ogystal â chystadleuaeth ysgrifennu ar lefel Mynediad.  Mae mwy o fanylion ar y dudalen hon.

Hoffwn ddymuno'r gorau i bawb fydd ynghlwm â chwrs Cymraeg i'r Teulu yn Llangrannog ddiwedd y mis.  'Dyn ni'n edrych ymlaen at groesawu teuluoedd yn ôl yno am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig.  'Dyn ni hefyd yn trefnu penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn ddiwedd Ebrill, ac mae'r holl fanylion isod.

Yn sgil llwyddiant cynllun Tiwtoriaid Yfory y llynedd, mae ysgoloriaethau wedi eu cynnig eto eleni.  Braf yw gallu adrodd bod nifer dda wedi ymgeisio a 'dyn ni'n edrych ymlaen at gynnig profiadau dysgu ac addysgu gwerthfawr i'r ymgeiswyr llwyddiannus dros yr haf.

Fel y gwyddoch, mae galw cynyddol am diwtoriaid gydol y flwyddyn, a 'dyn ni bob amser yn falch o weld unigolion newydd yn mentro i'r maes.  Felly os y gwyddoch chi am unrhyw un sy eisiau ymuno â ni, a wnewch chi eu hannog i ymweld â'r dudalen hon os gwelwch yn dda?

Dymuniadau gorau gyda gweddill y tymor a chofiwch fod croeso mawr i chi anfon e-bost ataf os oes gennych chi gwestiwn neu os dych chi angen cymorth unrhyw bryd.

Diolch yn fawr,

**Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**



# Gŵyl Ddarllen Amdani

Bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal yn rhithiol unwaith yn rhagor eleni, a hynny rhwng 27 Chwefror a 3 Mawrth. Bydd digwyddiadau byw yn cael eu cynnal a byddwn yn cyhoeddi nifer o gyfweliadau.  Yn ychwanegol, byddwn yn cynnal cystadleuaeth ysgrifennu stori ar lefel Mynediad.  Byddwn yn hyrwyddo cystadlaethau Merched y Wawr (sy'n agored i bawb!) ar y lefelau eraill.  Mae mwy o fanylion ar y dudalen hon, a byddwn yn rhannu hysbysebion yr ŵyl a rhagor o wybodaeth gyda'r swyddogion marchnata cyn bo hir.

# Sesiwn Jeremy Miles

Bydd sesiwn holi Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cael ei gynnal dros Zoom ar 21 Mawrth rhwng 9.45-10.15yb.  Mae'r sesiwn yn addas ar gyfer dysgwyr lefel Canolradd+ ac estynnir croeso mawr i barau cynllun Siarad.  Y dyddiad cau i gofrestru yw 19 Mawrth a bydd dolen Zoom yn cael ei hanfon at y dysgwyr ar 20 Mawrth.  Mae modd cofrestru yma, a byddem yn ddiolchgar pe baech chi'n annog eich dysgwyr i fynd ati i gofrestru.



## Penwythnos yng Nglan-llyn

Beth am annog eich dysgwyr i dreulio penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn rhwng 28-30 Ebrill 2023? Bydd cyfle iddynt gymdeithasu a mwynhau cwmni dysgwyr eraill heb anghofio dysgu a defnyddio eu Cymraeg. Pris y cwrs yw £160, sy'n cynnwys yr holl weithgareddau, gwersi, bwyd, ac ystafell sengl en-suite, neu £150 am ystafell twin en-suite os am rannu efo ffrind. Bydd angen iddynt gofrestru erbyn 31 Mawrth 2023 a bydd modd gwneud hynny ar y safle o 1 Mawrth ymlaen.






## Holiadur Dweud eich Dweud

Mae holiadur Dweud eich Dweud y Ganolfan wedi'i gyhoeddi heddiw. Tybed a wnewch chi dynnu sylw eich dysgwyr at yr holiadur os gwelwch yn dda a'u hannog i roi eu barn? Mae'r holiadur ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae'r fersiwn Gymraeg yn addas ar gyfer dysgwyr ar lefel Canolradd neu Uwch. Mae pedwar holiadur ar gael, a bydd angen i'r dysgwyr ddewis yr holiadur sy'n berthnasol iddynt hwy, yn unol â'u dull dysgu:

- Holiadur Dosbarth Wyneb yn Wyneb
- Holiadur Dosbarth Rhithiol
- Holiadur Dosbarth Cyfunol
- Holiadur Dosbarth Hybrid



Y llynedd, cafwyd 2,600 o ymatebion – oes modd curo hynny, eleni, tybed? Bydd yr holiadur yn fyw tan 10 Mawrth ac mae ar gael [yma].

Academi
Datblygu sgiliau'r gweithlu
Dysgu Cymraeg

# Cynhadledd Academi

'Dyn ni'n falch o gyhoeddi y byddwn yn cynnal cynhadledd Academi wyneb yn wyneb eleni a 'dyn ni'n edrych ymlaen at eich gweld chi yno. Cynhelir y gynhadledd yn gynnar ym mis Medi. Byddwn ni'n rhannu'r dyddiad, y lleoliad a rhagor o fanylion gyda chi maes o law.

# Croeso i Bawb



Ddiwedd Ionawr gwnaethon ni lansio pecyn adnoddau 'Croeso i Bawb' trwy gyfrwng gwahanol ieithoedd gan gynnwys Wcreineg, Cantoneg, Arabeg Syria, a Dari. Bwriad y pecyn yw cyflwyno'r Gymraeg a Chymru i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg.

Mae gwahanol adnoddau ar gael yn y pecyn rhad ac am ddim, gan gynnwys modiwl hunan-astudio digidol sy'n cyflwyno dysgwyr i bobl a llefydd, hanes yr iaith, y celfyddydau, chwedlau a chwaraeon yng Nghymru.

A wnewch chi ein helpu i ledaenu'r neges am yr adnoddau hyn? Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma].




**Lansiwyd y pecyn adnoddau yng nghanolfan Oasis, Caerdydd. Ymunodd Zaina Aljumma a Gosia Rutecka gyda Dona a Helen, a gwnaethon nhw rannu eu profiadau o symud i Gymru ac o ddysgu'r Gymraeg.**

# CBAC

Dyma nodyn i'ch hysbysu bod Bwletin Arholiadau 2022 CBAC ar gael trwy ddilyn y ddolen hon.

Yn ychwanegol, mae CBAC wedi gofyn i ni rannu'r hysbyseb isod gyda chi:

# Arholiadau Cymraeg i Oedolion

## Oes diddordeb gyda chi mewn ymuno â'r Gweithgor Arholiadau lefel Mynediad a Sylfaen?

Bydd angen bod ar gael i ddod i bedwar cyfarfod y flwyddyn:

- diwedd Hydref (gosod papurau)
- dechrau Mawrth (dyfarnu Mynediad Ionawr)
- dau ddiwrnod olynol ym mis Gorffennaf (dyfarnu arholiadau'r haf)

Telir ffïoedd sesiwn am ddod i'r cyfarfodydd (os nad ydych chi'n gyflogedig yn llawn amser gan Dysgu Cymraeg).

Bydd angen:

- profiad o ddysgu oedolion ar lefelau Mynediad a Sylfaen am o leiaf dwy flynedd;
- profiad o baratoi ymgeiswyr i sefyll yr arholiadau;
- y gallu creadigol i lunio cwestiynau arholiad.

I ddangos diddordeb a gwneud cais, anfonwch ebost at emyr.davies@cbac.co.uk ynghyd â:

- CV byr yn nodi eich profiad yn dysgu ym maes Cymraeg i oedolion;
- Enghraifft wreiddiol o dasg arholiad, sef Rhan 1 Prawf Gwrando Mynediad (Deialog ynghyd â chwestiynau amlddewis – does dim angen cynnwys lluniau).

**Dyddiad cau: 1 Mawrth 2023**



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cylchlythyr Tiwtoriaid


Haf
2023

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Gair gan Helen



## Croeso!

Dyma air byr i ddiolch o galon i bob un ohonoch am eich holl waith caled drwy gydol y flwyddyn a aeth heibio, ac i ddymuno'n dda i chi dros yr haf. Dw i'n gwybod bod gan lawer ohonoch gynlluniau i gadw mewn cyswllt gyda'ch dysgwyr dros y gwyliau, felly gobeithio y gwnewch chi ddwyn perswâd arnynt i fanteisio ar y cynnig Cyw Cynnar cyn 31 Gorffennaf.

Diolch am ein cynorthwyo i lenwi'r cyrsiau preswyl eleni, sef cwrs Nant Gwrtheyrn, cwrs Cymraeg i'r Teulu, Llangrannog a chwrs preswyl Glan-llyn. Roedd y tri chwrs yn llwyddiannus iawn, gyda mwy o gofrestriadau nag erioed o'r blaen. 'Dyn ni eisoes wedi cychwyn trefnu cwrs nesaf Nant Gwrtheyrn fydd yn cael ei gynnal rhwng 3-5 Tachwedd.

Os dych chi'n mynd i'r Eisteddfod yn Llŷn ac Eifionydd rhwng 5-12 Awst, gobeithio y gwela i chi am sgwrs ym Maes D. Cawn wybod pwy fydd yn cipio gwobr Dysgwr y Flwyddyn ar y dydd Mercher, heb anghofio Tlws y Tiwtor ar y dydd Sadwrn cyntaf.

Ond cyn hynny, 'dyn ni'n edrych ymlaen at groesawu criw brwd o bobl ifainc i'n plith sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa fel tiwtor. Bydd 15 ohonynt yn dod i Gaerdydd am bythefnos o hyfforddiant fis yma fel rhan o gynllun Tiwtoriaid Yfory.

Pan ddaw hi'n amser i ail afael ym mhethau wedi toriad yr haf, cofiwch am gynhadledd Academi ddechrau Medi. 'Dyn ni'n edrych ymlaen at gael dod at ein gilydd wyneb yn wyneb, a hynny yn Wrecsam ar 8 Medi. Cyntaf i'r felin felly cofiwch gofrestru ar Academi cyn 15 Gorffennaf.



Diolch yn fawr,

**Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**

# Croesawu Lowri a Meinir

’Dyn ni’n falch iawn o groesawu cyfarwyddwyr newydd i’n plith sef Lowri Bunford-Jones a Meinir Ebbsworth.  Mae Lowri, fel cyn Gyfarwyddwr Dysgu Cymraeg Caerdydd yn barod yn gyfarwydd iawn i nifer ohonoch chi.  Mae wedi ei phenodi yn Gyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu, a bydd hi’n gyfrifol am gynllun Cymraeg Gwaith a gwasanaethau corfforaethol y Ganolfan.  Mae Meinir wedi’i phenodi’n Gyfarwyddwr Strategol, ar ôl cyfnod yn gweithio fel Prif Swyddog Addysg Cyngor Sir Ceredigion.  Meinir fydd yn arwain Cyfarwyddiaeth Strategol newydd y Ganolfan fydd yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifainc 16-25 oed.  Croeso cynnes iawn iddynt, dw i’n siŵr y cewch gyfle i ddod i gysylltiad â’r ddwy dros y misoedd nesaf.



Lowri Bunford-Jones



Meinir Ebbsworth

# Cynhadledd Academi

Bydd Cynhadledd Academi yn cael ei chynnal eleni ar 8 Medi, a hynny yng Ngholeg Cambria, Wrecsam.  Bydd y tiwtor profiadol, Haydn Hughes yn trafod cyfathrebu a Bethan Gwanas yn ymuno i ddweud gair.  Yn ychwanegol, bydd cyfres o weithdai yn cael eu cynnal lle bydd cyfle i drafod IATEFL, CorCenCC a Jargon Busting.  Gobeithio y bydd modd i chi ymuno â ni, bydd angen cofrestru ar Academi erbyn 15 Gorffennaf.



# Hwyl yr Haf

Beth am annog eich dysgwyr i fwynhau cylchgrawn Hwyl yr Haf dros y misoedd nesaf? ’Dyn ni wedi paratoi erthyglau sy’n addas i ddysgwyr ar bob lefel, ac mae cyfle iddynt gymryd rhan mewn dwy gystadleuaeth. Mae dwy dudalen yn rhoi sylw i ardal Llŷn ac Eifionydd ac un dudalen yn canolbwyntio ar ddarpariaeth Maes D ar faes yr Eisteddfod. Mae copi o’r cylchgrawn ar ein gwefan [yma](), ac mae copïau caled gan y Swyddogion Marchnata. Byddem yn gwerthfawrogi pe bai modd i chi rannu’r cylchgrawn gyda chymaint o’ch dysgwyr â phosib os gwelwch yn dda.





# Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Mae llwyth o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer Maes D rhwng 5-12 Awst ym Moduan, Pen Llŷn. Yn eu plith mae sesiynau stori, a cherddoriaeth gan Plu a Cowbois Rhos Botwnnog. Yn ychwanegol, mae sgyrsiau wedi eu trefnu am hanes Nant Gwrtheyrn a llwyddiant clwb pêl-droed Wrecsam a bydd cyfle i holi dysgwyr o dramor sy'n byw yn yr ardal. Ar y dydd Mercher, cawn wybod pwy fydd yn ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn, a hynny am 3yp yn y Pafiliwn. Am ragor o wybodaeth ac i brynu tocyn ewch i eisteddfod.cymru

# Ymweliad Catalunya

Yn ddiweddar aeth rhai o staff y Ganolfan a'i darparwyr i Farcelona, Catalunya, i ddysgu mwy am 'Voluntariat Per La Llengua'. Roedd staff o'r Llywodraeth a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn rhan o'r daith. Mae cynllun Siarad wedi'i seilio ar y cynllun yma, sydd ar waith ers 2002. Erbyn hyn, mae dros 9,000 o barau yn cwrdd ac maent yn derbyn cerdyn aelodaeth am gymryd rhan. Maen nhw'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y dysgwyr yn gallu defnyddio'r Gatalaneg mewn siopau, er mwyn hybu defnydd o'r iaith yn y gymuned. Bydd y Ganolfan nawr yn datblygu cynllun gweithredu ac yn rhannu rhagor o wybodaeth gyda chi maes o law.

**Staff y Ganolfan Dysgu Cymraeg a rhai o wirfoddolwyr Voluntariat per la Llengua, yng Nghanolfan L'Heura, Santa Colomba.**



# Canlyniadau Dweud eich Dweud



Roeddem yn falch iawn gyda chanlyniadau Dweud eich Dweud eleni, sef yr holiadur cenedlaethol sy'n casglu barn dysgwyr am y ddarpariaeth.  Cafwyd 4673 o ymatebion felly diolch am annog eich dysgwyr i gwblhau'r holiadur.

**Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:**

- **99%** yn mwynhau dysgu gyda ni
- **93%** yn disgrifio'r profiad dysgu yn dda neu'n dda iawn
- **91%** yn dweud bod y broses ymrestru yn hawdd
- **85%** yn bwriadu dysgu Cymraeg eto y flwyddyn nesaf
- **81%** o'r farn bod y tiwtoriaid yn dysgu'r cwrs yn effeithiol



# Hyfforddiant Sylfaen fis Medi

Yn nhymor yr Hydref, bydd hyfforddiant rhanbarthol wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal i diwtoriaid Sylfaen.  Mae'r holl ddyddiadau wedi eu rhestru isod ac mae rhagor o fanylion ar Academi:

- **6 Medi 2023 – 10:30-12:00**
  Prifysgol De Cymru
- **11 Medi 2023 – 09:30-11:00**
  Coleg Cambria, Wrecsam
- **11 Medi 2023 – 14:30-16:00**
  Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, Stryd y Deon, Bangor
- **16 Medi 2023 – 09:30-11:00**
  Coleg Gwent, Campws Crosskeys
- **27 Hydref 2023 – 14:00-15:30**
  Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin.

# Ymgyrch farchnata genedlaethol




Bydd hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol dros y misoedd nesaf, i ddenu [dysgwyr newydd](#) i ddilyn cyrsiau ym mis Medi, ac i gefnogi'ch gwaith chi o ddenu dysgwyr cyfredol yn ôl i ddilyn eu cwrs nesaf. Bydd hysbysebion Facebook a gwasanaethau radio a phodlediadau ar-lein.  Bydd y Ganolfan hefyd yn gweithio gyda dylanwadwyr ar TikTok i ddenu dysgwyr 18-25 oed, sy'n cael dilyn cwrs yn rhad ac am ddim.

# Adnoddau digidol

Mae llawer o adnoddau digidol ar gael all fod o ddefnydd i ddysgwyr. Beth am rannu rhai o'r rhain gyda'ch dysgwyr?

- dysgucymraeg.cymru
- S4C Dysgu Cymraeg
- BBC Cymru Fyw
- Y Pod
- AM Cymru | Home (amam.cymru)
- Duolingo
- SaySomethingInWelsh
- Memrise

Yn ychwanegol, mae Lingo360 yn cyhoeddi erthyglau newyddion sy'n addas i ddysgwyr bob dydd. Mae dysgwyr yn gallu ymuno â rhestr e-bost Lingo360 i dderbyn Newyddion yr Wythnos yn rheolaidd. Mae Pegi Talfryn yn cyhoeddi tasg ysgrifennu creadigol i ddysgwyr ar bob lefel ar Lingo360 bob wythnos. Beth am rannu'r tasgau, a elwir yn Hwyl gyda geiriau, gyda'ch dysgwyr?



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn